Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Cofnodion y Cyd-bwyllgor Archwilio**
**Dydd Mawrth 17 Mawrth 2015 am 10:00y.b.**
**Canolfan Reoli Strategol, Pencadlys yr Heddlu**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | Mr Alasdair Kenwright, Chair | ) |
| | Mrs Ann Williams | ) Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio |
| | Mr Gawain Evans | ) |
| | Mr Malcolm MacDonald | ) |

**Yn bresennol:**

Christopher Salmon – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)
Simon Prince – Prif Gwnstabl (PG)
Adrian Williams – Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)
Helen Morgan-Howard – Pennaeth Staff, SCHTh (HMH)
Carys Morgans – Pennaeth Staff, SCHTh (CM)
Jayne Woods – Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)
Edwin Harries – Cyfarwyddwr Cyllid (CC)
John Herniman – Cyfarwyddwr Ymgysylltu, Swyddfa Archwilio Cymru (JH)
Vicky Davies – Pennaeth Archwilio, TIAA (VD)
Marc Jones – Rheolwr Busnes TG (MJ)(eitem 12 ar yr agenda yn unig)
Samantha Gainard – Cyfreithiwr yr Heddlu (SG) (eitem 15 ar yr agenda yn unig)
Angharad Lewis – Rheolwr Swyddfa, SCHTh

**A32 Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth Jason Garcia o Swyddfa Archwilio Cymru.

**A33 Datganiadau o fuddiant**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**A34 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2014**

Cytunwyd fod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod yn amodol ar ddiwygiad o dan A29 a'r ychwanegiad o Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Dros Gymru.

**A35 Materion yn codi**

O dan A20 cyngor cyfreithiol ar daliadau dewisol, roedd canlyniad achos hir ddisgwyliedig wedi arwain at setliad y tu allan i'r llys na roddodd dyfarniad i arwain y sefydliad ar opsiynau sydd ar gael iddynt gyda thrafodaethau pellach er mwyn setlo'r mater.

Roedd trafodaethau ar Fenter Ariannu Preifat Rhydaman yn parhau.

**Materion i'w trafod:**

**A36 Ystyried Cynllun Archwilio drafft yr archwilydd allanol ar gyfer 2014/15, gan gynnwys y ffioedd archwilio cysylltiedig.**

Cyflwynodd JH y Cynllun Archwilio ar gyfer 2014/15 a chrynhodd amcanion allweddol a dyletswyddau statudol mewn perthynas â datganiadau ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, a threfniadau ar gyfer sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd o ran eu defnydd o adnoddau. Tynnodd JH sylw at risgiau allweddol i ddatganiadau ariannol ynghyd â gwaith arfaethedig i fynd i'r afael â'r risgiau hynny.

Ailadroddodd JH y gwaith archwilio perfformiad a gyflawnwyd er mwyn bodloni gofynion statudol o ran gwerth am arian, gan gynnwys canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill megis AHEM a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i ffurfio'r farn honno. Nododd JH feysydd o bwysau ariannol gyda'r gofyniad i wneud arbedion cost sylweddol a thynnodd sylw at y parhad arfaethedig a gwaith gyda AHEM ar eu harolygiadau. Roedd y Cynllun Archwilio'n tynnu sylw at waith partneriaeth a chydweithio fel risg gwerthfawr ond costus.

Roedd y Cynllun Archwilio'n nodi'r ffi archwilio a oedd yn cymharu â'r ffi a nodwyd yn amlinelliad archwilio blynyddol 2014. Cytunwyd y byddai ad-daliad ar gyfer y gwaith a roddwyd y gorau iddo ar waith archwilio perfformiad y llynedd ar ansawdd data trosedd yn cael ei wneud.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan aelodau.

Nododd GE fod rhai o'r risgiau a nodwyd yn ymddangos yn ddiangen a darparodd JH esboniad o ran pam gawson nhw eu nodi.

Mewn perthynas â ffioedd archwilio blynyddol a godir ar y sefydliad, holodd y Cadeirydd pam oedd y ffi'n uwch na'r ffi ar gyfer cyrff o faint tebyg yn Lloegr.

Esboniodd JH y cynllun ffioedd a gymeradwyir gan bwyllgor cyllid Cynulliad Cymru a gofyniadau o dan y ddeddfwriaeth o gymharu â Lloegr sydd â chyfrifoldeb o dan swyddogaethau gwahanol o dan ddeddfwriaethau gwahanol.

Mewn perthynas â rheoli strwythurau ffioedd, sylwodd GE ar agweddau o archwilio'n briodol i faint a risgiau'r sefydliad; safbwynt y cytunodd gyflwyno i adran Llywodraeth Leol Cymru.

Ar gyfer dibenion egluro, pwysleisiodd MM ofyniad i amlygu'r addasiad ad-daliad ffi ar gyfer 2013/14 sy'n digwydd ym mlwyddyn ariannol 2014/15.

Yn yr amserlen, nododd MM y byddai cynllun archwilio 2016 yn cael ei orffen pan fydd y Pwyllgor yn cwrdd ym mis Mawrth 2016.

**Penderfyniad: Cytunodd yr Aelodau ar y Cynllun Archwilio ar gyfer 2014/15, gan gynnwys costau archwilio cysylltiedig.**

**Materion i'w Trafod:**

**A37 Derbyn llythyrau wrth Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â materion sy'n codi o'i harchwiliad 2013/14.**

Rhoddwyd barn anghymwys i gwblhad yr archwiliad o'r datganiadau ariannol a Chyfrifon Llywodraeth Gyfan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl ar gyfer 2013-14. Doedd dim pryderon ynghylch agweddau meintiol yr arferion cyfrifo a'r adrodd ariannol. Roedd pob mater rheoli mân a brofwyd wedi'u trafod â'r tîm cyllid a chytunwyd ar bob cam gweithredu ym mhob achos.

**Penderfyniad: Y Pwyllgor i nodi'r llythyrau gan Swyddfa Archwilio Cymru.**

**A38 Ystyried y Strategaeth Rheoli Trysorlys**

Crynhodd y PSA yr adroddiad a oedd yn bodloni dyletswydd CHTh o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 mewn perthynas â Chod CIPFA a Chanllaw LlC i gymeradwyo strategaeth rheoli trysorlys a strategaeth buddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif risgiau i weithgareddau trysorlys y sefydliad. Ystyriwyd cyngor gan ymgynghorwyr rheoli trysorlys y sefydliad, Arlingclose, mewn perthynas â rhagolwg credyd, rhagolygon cyfradd llog a phenderfyniadau buddsoddi.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan aelodau ar yr adroddiad.

Cwestiynodd GE y risgiau sy'n gysylltiedig â buddsoddi tramor. Ymgymerwyd â'r buddsoddiadau hyn yn dilyn ystyriaeth gofalus a chyngor Arlingclose gyda phenderfyniadau'n cael eu llywodraethu gan gyfraddiad credyd i bwyso a mesur risg a hyd y buddsoddiad. Cwestiynodd aelodau arwyddocâd buddsoddiadau tramor.

Awgrymodd GE mesurau o bwyll pe bai'r sefydliad yn ystyried gollwng cyfraddiadau credyd derbyniol wrth asesu'r risg credyd i BBB+. Nodwyd sylwadau a phryderon aelodau ar y mater hwnnw.

**Penderfyniad: Y Pwyllgor i nodi'r adroddiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys.**

**A39 Ystyried y Polisi Cronfeydd Wrth Gefn**

Mae'r Polisi Cronfeydd a Mantolion wedi'i adolygu a'i diweddaru a chrynhodd y PSA y prif newidiadau o fewn y polisi diwygiedig arfaethedig, sef:

Roedd hi'n ofynnol yn ôl y fersiwn gyfredol i'r Cyd-bwyllgor Archwilio gymeradwyo'r polisi. Fodd bynnag, nid oedd yn ofynnol yn ôl Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllogr Archwilio

a diweddarwyd y polisi i adlewyrchu'r gofyniad i ystyried yn hytrach na chymeradwyo'r polisi.

Roedd y fersiwn diwygiedig yn caniatáu defnyddio cronfeydd wrth gefn i leihau lefel y praesept Treth Gyngor sy'n daladwy gan y cyhoedd.

Cynyddwyd lefel y gronfa gyffredinol i 5.0% o'r gwariant net i adlewyrchu'r risgiau cyfredol yn well a'r ansicrwydd y mae'r Comisiynydd yn wynebu.

Gofynnwyd i'r Cyd-bwyllgor Archwilio ystyried y polisi cronfeydd a mantolion diwygiedig ar gyfer 2015/16 ac i'r Comisiynydd gymeradwyo a mabwysiadau'r polisi cronfeydd a mantolion ar gyfer 2015/16.

O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae gofyniad ar gyfer adolygu pob polisi ac asesu ei addasrwydd ar gyfer cyhoeddi ar wefan yr Heddlu. Fel mesur diogelwch, cwestiynodd MM priodoldeb y PSA yn berchen ar y ddogfen a chynnal adolygiad o addasrwydd ar gyfer cyhoeddi.

Roedd yr Aelodau a Swyddfa Archwilio Cymru'n croesawu'r polisi diwygiedig. Er mwyn darparu tryloywder cywir ar adrodd am ddefnyddio cronfeydd wrth gefn, pwysleisiodd JH yr angen ar gyfer nodi hyn yn glir o fewn y Datganiad o Gyfrifon.

**Penderfyniad: Y Pwyllgor i nodi'r adroddiad ar y Polisi Cronfeydd Wrth Gefn a Mantolion ar gyfer 2015/16.**

**A40 Ystyried Strategaeth Gyfalaf 2015/18**

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn nodi'r egwyddorion sy'n tanategu cynhyrchiad blaenraglen gyfalaf Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac mae'n dangos sut y mae buddsoddi cyfalaf yn cyfrannu at gyflenwi'r Cynllun Heddlu a Throseddu gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Rhaid i'r Strategaeth Gyfalaf fod mewn grym erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

O dan Atodiad A, tynnodd y PSA sylw at ffigurau ar gyfer prosiectau ystadau, tir ac adeiladau sy'n dod i dros £16 miliwn dros y pedair blynedd nesaf a oedd heb eu crynhoi a'u rhannu'n rhannau etholaeth eto. Gyda chymorth ymgynghorwyr allanol, bydd canlyniadau arolwg cyflwr sydd i'w gynnal ledled ystâd y Comisiynydd yn Nyfed-Powys gyfan yn hysbysu penderfyniadau wrth fynd ymlaen.

Adlewyrchodd y PSA ar gostau amcangyfrifol gwelliannau i gyfleusterau dalfa gorsaf Llanelli ac adnewyddiadau ystadau eraill.

Tynnodd y CC sylw at elfennau eraill o fewn y Rhaglen Gyfalaf megis y rhaglen Disodli Cerbydau a chyflenwi yn erbyn y Strategaeth plismona Digidol a Map Ffordd sy'n golygu buddsoddi mewn data symudol, plismona digidol a buddsoddi parhaus mewn systemau TG a thechnoleg Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig i gynnal cynhyrchaeth a lefelau perfformiad.

O ran cynllunio ar gyfer y dyfodol ac asesu risgiau, cwestiynodd MM pa un ai a allai'r rhaglen gyfalaf nodi pa brosiectau sy'n cael eu rheoli'n llwyr yn Nyfed-Powys yn hytrach na bod yn brosiectau cenedlaethol.

Gofynnodd MM am eglurhad ar amserlenni a gwaith sy'n gysylltiedig â chynnal yr arolwg cyflwr.

**Penderfyniad: Ystyriodd y Cyd-bwyllgor Archwilio y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2015/16 – 2018/19.**

**A41 Ystyried ail ddrafft o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol**

Yn uno ag 1.5 o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, cynhaliwyd adolygiad o'r ddogfen a chrynhowyd y prif newidiadau fel a ganlyn:

Y gofyniad deddfwriaeth gaffael newydd ar gyfer proses gaffael ar gyfer gwariant dros £25,000 yn hytrach na £50,000 a ddaeth i rym ar 26 Chwefror 2015;

Y gallu i Gyfreithwyr gychwyn gweithdrefnau llys ar gyfer adennill dyledion;

Rôl y Swyddog Monitro o ran sicrhau nad yw adnoddau o fewn SCHTh yn cael eu defnyddio ar gyfer dibenion gwleidyddol;

Mae'r Pennaeth Ystadau wedi'i ail-bennu'n Gyfarwyddwr Ystadau.

Cytunodd yr Aelodau bod y ddogfen yn ddefnyddiol. Cwestiynodd JH fân eiriad o dan bwynt 8.4.1 a pha un ai a fyddai'n fwy priodol darllen 'dylid ceisio mwy nag un dyfynbris er mwyn arddangos gwerth am arian.'

O dan bwynt 7.9 a chymorth ar faterion Trethi, tynnodd GE sylw at wasanaeth llinell gymorth am ddim yr oedd Deloitte yn cynnig i rannau o'r sector cyhoeddus. Cytunodd y PSA i ddilyn y gwasanaeth. Mewn perthynas â diweddariadau, hysbysodd GE y Pwyllgor hefyd bod Llywodraeth Cymru'n cynnig sesiwn dreth am ddim ar y cyd â Deloitte ar faterion TAW. Cytunodd GE i estyn gwahoddiad.

**Penderfyniad: Ystyriodd y Pwyllgor y Diwygiadau i'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.**

**A42 Ystyried Adroddiad Cynnydd yr Archwilwyr Mewnol**

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad ar y fframwaith Sicrwydd Rheoliadau ar 9 Mawrth, ynghyd â gwaith cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Blynyddol 2014/15 ac archwiliadau a gynhaliwyd ers cyfarfod diwethaf y Cyd-bwyllgor Archwilio. Defnyddiwyd diwrnodau cyfwng yn y cynllun ar gyfer helpu i ddatblygu'r trefniadau Rheoli Risg. Awgrymwyd y gellid gohirio'r adolygiad o Reoliadau Lliniaru Rheoli Risg yn y cynllun tan 2015/16. Rhestrwyd y perfformiad yn erbyn targedau ar gyfer yr adroddiadau a gwblhawyd gyda golwg ar wella targed gweithdroad y flwyddyn nesaf.

Roedd Atodiad A o'r adroddiad yn dangos cynnydd yn erbyn y cynllun blynyddol dros dro ar gyfer 2014/15.

Adroddodd VD ar gynnydd argymhellion Blaenoriaeth 1 a thynnodd sylw at lithriad mewn dyddiad targed i 30 Mehefin 2015 ar gyfer cwblhau'r argymhelliad mewn Cynllunio Parhad Busnes. Roedd cynnydd ar darged ar gyfer gwaith mewn perthynas â Systemau TG. O fewn yr adolygiad Rheoli Ystadau, adroddwyd bod yr argymhelliad bron wedi'i gwblhau a bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud â'r ôl-groniad o anfonebau sy'n weddill.

Wrth drafod bodlonrwydd â'r dyddiadau cwblhau targed diwygiedig mewn Cynllunio Parhad Busnes, cydnabu ei fod yn ddarn o waith mawr a hysbysodd VD yr aelodau bod adolygiad arall o Barhad Busnes wedi'i drefnu ar gyfer 2015/16. Darparodd y CA sicrwydd y bydd y gwaith hwn yn cael ei ddwyn ymlaen fel blaenoriaeth.

Er mwyn cael dealltwriaeth o'r sefyllfa, cwestiynodd GE y nifer o anfonebau oedd wedi'u derbyn a'u prosesu dros gyfnod o amser.

**Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad cynnydd cryno ar Archwilio Mewnol.**

**A43 Derbyn Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol**

**a) Cyflogres**

Derbyniodd yr adroddiad sicrwydd rhesymol gydag un argymhelliad blaenoriaeth 2 mewn perthynas â chynlluniau cyfwng ar waith er mwyn cyflawni gweithdrefnau rhyngwyneb ledjer cyffredinol misol. Yn dilyn trafodaethau, cyflawnwyd canlyniad da ar ganfyddiadau allweddol ar daliadau goramser wedi'u gohirio nad oedd yn cael eu cronni gan arwain at reolaeth ariannol ar oramser aneffeithiol. Darparodd y CA eglurder ar yr argymhellion. Roedd pob un ohonynt wedi'u derbyn.

**b) Dyledwyr**

Derbyniodd yr adolygiad o drefniadau Dyledwyr asesiad sicrwydd cyfyngedig. Nododd y ddau argymhelliad blaenoriaeth 1 oedi o ran cyflwyno anfonebau i ddyledwyr ac adfer dyledion yn anamserol yn unol â Rheoliadau Ariannol a Gweithdrefnau Dileu ac Adennill Dyledion. Roedd VD yn fodlon â'r amserlenni Gorffennaf 2015 a osodwyd ar gyfer gweithredu.

Roedd y CA eisiau nodi y bu'r archwiliad yn brofiad cadarnhaol ar gyfer y staff UCB newydd o ran cael cyngor cyfunol ar ffyrdd o wella prosesau. O ran argymhellion blaenoriaeth 1, crynhodd y CA gynlluniau o ran ymarfer gwella ar gyfer y broses Hysbysiad o Fwriad a chynhyrchu gwell canllawiau i'r staff cysylltiedig. Hefyd, roedd trefniadau ar gyfer hyfforddiant ar gyfer gwella parhaus yn y dyfodol yn ogystal â bodloni gofynion. Roedd y CA eisiau nodi nifer y trafodion sy'n gysylltiedig â'r meysydd hyn.

Gofynnodd MM am eglurhad ar y system sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin a chydweithrediad a dderbyniwyd mewn perthynas ag anghenion hyfforddi. Cwestiynodd MM y gweithdrefnau a'r prosesau sydd mewn grym ar gyhoeddi anfonebau cyn diwedd y flwyddyn ariannol, a phrosesau sydd mewn grym â'r Gwasanaethau Cyfreithiol o ran Adennill Dyledion.

**c) Ledjer Cyffredinol**

Gwobrwywyd asesiad sicrwydd sylweddol ar yr adolygiad a oedd yn ystyried y trefniadau ar gyfer llwybr archwilio effeithiol ar gyfer data a nodir ar y ledjer cyffredinol a phriodoldeb yr adroddiadau a gynhyrchir. Ymgymerwyd ag argymhelliad i sicrhau eglurder mewn perthynas ag awdurdodau trosglwyddo rhwng y Rheoliadau Ariannol, Awdurdodau Dirprwyedig a'r Gweithdrefnau Rheoli Ariannol ar gyfer Trosglwyddo yn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.

**ch) Diogelwch Rhyngrwyd ac E-bost**

Roedd yr adolygiad yn ystyried trefniadau ar gyfer diogelwch rhyngrwyd, e-bost a gwefan, bodloni anghenion busnes, cyfrifoldebau gweithredol, rheoli newid a diogelwch corfforol a rhesymegol.

Canfu canfyddiadau allweddol bod trefniadau rhesymol mewn grym ar gyfer sicrhau diogelwch rhyngrwyd ac e-bost. Cytunwyd a gweithredwyd argymhelliad i ganiatáu mynediad i flychau post gweithwyr/ymadawyr a chynnwys awdurdod yn y Polisi Diogelwch Gwybodaeth. Hefyd, derbyniwyd argymhelliad ar gyfer polisi i bennu pa un ai a ddylai unigolion ddileu e-byst sy'n cael eu cadw yn yr archif ar ôl cyfnod penodol lle y gallai gweithredoedd effeithio ar ofynion Rhyddid Gwybodaeth.

Cadarnhaodd MJ fod gan y Swyddog Diogelwch Gwybodaeth gyfrifoldeb dros weithredu newid i'r polisi a mynd ag argymhellion ymlaen. Mewn ymateb i gwestiwn, darparodd MJ eglurhad ar y prosesau sydd mewn grym lle y profir salwch hirdymor.

**Penderfyniad: Y Pwyllgor i nodi adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol.**

**A44 Adolygu'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2015/16 (gan gynnwys cymhariaeth yn erbyn y cynllun archwilio tair blynedd)**

Crynhodd VD yr adroddiad sy'n nodi'r newidiadau a'r rhesymwaith ar gyfer newidiadau i'r Cynllun Archwilio Mewnol Strategol a osodwyd yn wreiddiol. Mae'r Cynllun Blynyddol yn nodi'r adolygiadau fydd yn cael eu cynnal, yr amserau a bwriedir a'r cwmpas ar gyfer pob adolygiad. Bydd y Cynllun Strategol treigl yn destun adolygiad parhaus a gallai newid wrth i'r risgiau ar gyfer y sefydliad newid.

Hysbysodd VD yr aelodau bod TIAA wedi'u penodi'n llwyddiannus fel yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer De Cymru a Gwent. Pan fo'n briodol, cynigiodd VD grynhoi a chyflwyno adroddiad i'r tri Cyd-bwyllgor Archwilio ar adolygiadau tebyg ar gyfer

dibenion rhannu arfer gorau ar draws yr adolygiadau hynny; i'w dilyn gan adroddiad adolygu cymhariaeth.

Roedd hi'n dda gan yr aelodau nodi bod newidiadau i'r Cynllun wedi'u nodi a chanmolodd archwilwyr a rheolwyr ar y broses archwilio ac adnabod meysydd priodol ar gyfer adolygu.

Rhoddodd y CC eglurhad mewn ymateb i gwestiwn gan GE ar unrhyw fantolion arian sy'n cael eu dal o fewn yr Heddlu. Cadarnhaodd VD y byddai hyn yn cael ei gynnwys o dan yr adolygiad Rheoli Trysorlys sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mewn ymateb i gwestiwn gan MM cadarnhaodd VD y cwmpas ar gyfer adolygiad Prydlesi fel y nodir ar dudalen 5.

**Penderfyniad: Y Pwyllgor i nodi'r adroddiad ar y Cynllun Archwilio Mewnol.**

**A45 Derbyn adroddiad diweddaru eithriedig ar y gwaith yr ymgymerwyd ag ef mewn perthynas â'r Adolygiad Sicrwydd Archwilio Mewnol ar Drefniadau Asedau Sefydlog**

Darparodd y PSA y Pwyllgor â diweddariad mewn perthynas â chynnydd a wnaed gan SCHTh o ran cydymffurfio ag argymhellion a wnaed gan Adolygiad Sicrwydd Archwilio Mewnol ar Drefniadau Asedau Sefydlog diweddar.

Darparodd y PSA ymatebion priodol i'r cwestiynau a godwyd gan Aelodau.

**Penderfyniad: Y Pwyllgor i nodi'r adroddiad ar drefniadau Asedau Sefydlog.**

**A46 Derbyn diweddariad ar weithgarwch AHEM**

Crynhodd y CA y materion allweddol o fewn yr adroddiad a roddodd ddiweddariad i'r Aelodau ar weithgarwch parhaus gan AHEM a'r canlyniadau o archwiliadau diweddar a chyhoeddiadau.

Disgwylir yr adroddiad terfynol ar yr archwiliad ar y Trefniadau Amlasiantaeth Er Diogelu'r Cyhoedd tra bod ôl-drafodaeth wedi amlygu cryfderau ac arferion da mewn ymrwymiad amlasiantaeth.

Nid archwiliad oedd yr astudiaeth Plismona a Throseddau Digidol ond astudiaeth ar gyfer canfod ffeithiau i hysbysu pob heddlu am dueddiadau cyfredol a phrosesau sydd mewn grym ar hyn o bryd.

Yn dilyn yr Arolygiad Diogelu Plant Cenedlaethol, nododd adroddiad nifer o bethau cadarnhaol ynghyd â nifer o argymhellion ar gyfer gwella.

Roedd yr arolygiad o Drwyddedu Arfau Saethu ar fin digwydd. Bydd yn arolygiad sy'n seiliedig ar risg sy'n canolbwyntio ar brosesau trwyddedu arfau saethu a rheoli risg y broses honno.

Roedd yr arolygiad Trais ar Sail Anrhydedd mewn dau ran. Roedd Dyfed-Powys wedi dychwelyd yr elfennau data a dogfennau fel rhan o gam 1 o'r archwiliad ac yn disgwyl cadarnhad ar ddethol ar gyfer rhan 2 o gam 2 o'r broses archwilio.

Roedd hysbysiad o archwiliad ar gyfer cam 1 o archwiliad PEEL 2015 wedi'i dderbyn a bydd yr heddlu'n croesawu AHEM rhywbryd rhwng Ebrill a Mehefin 2015. Byddai'r llinynnau cychwynnol yn canolbwyntio ar feysydd effeithiolrwydd ac arweinyddiaeth.

Mewn perthynas â'r adroddiad ar yr archwiliad ar Ddiogelu Plant Cenedlaethol, cwestiynodd AW sut oedd yr heddlu'n mynd i'r afael â'r argymhellion a oedd yn effeithio ar waith partneriaeth wrth ddioddef cyfyngiadau ariannol; yn arbennig achosion sy'n ymwneud ag archwiliadau meddygol fforensig, achosion lle y mae plant neu bobl ifainc wedi'u cadw o dan Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, ac achosion o lety amgen ar gyfer plant a phobl ifainc sy'n cael eu cadw yn y ddalfa.

Cyfeiriodd y PG at faterion a phryderon o gwmpas archwiliadau o heddluoedd o ran gweithio mewn partneriaeth a heriau o fewn awdurdodau lleol. Cyfeiriodd y PG at welliannau sylweddol sydd wedi'u cyflwyno gan y Brysbennu Iechyd Meddwl. Pwysleisiodd AW bwysigrwydd gwaith partneriaeth gyda Byrddau Iechyd, sydd hefyd yn hollbwysig. Eglurodd y PG y sefyllfa a'r anawsterau a brofwyd mewn perthynas ag archwiliadau meddygol fforensig ledled yr ardal heddlu.

Mewn perthynas ag Archwiliad Peel, mynegodd MM ei bryderon dros y gwaith paratoi sydd angen ar gyfer archwiliadau a chanmolodd yr aelodau'r heddlu am fodloni gofynion archwiliadau tra'n gweithio o dan bwysau mawr.

**Penderfyniad: Y pwyllgor i nodi'r adroddiad ar weithgarwch AHEM.**

**A47 Derbyn cofrestri risg yr Heddlu a SCHTh a derbyn diweddariad ar drefniadau rheoli risg**

Cyflwynodd SG yr adroddiad ar gofrestr risg yr Heddlu. Gweithredwyd ymagwedd dwy haen; sef Cofrestr Risg Corfforaethol a Chofrestr Risg Dynamig. Roedd y system wedi cynhyrchu llawer o ddadlau a thrafodaethau o gwmpas materion a fyddai heb eu datrys a'u gwirio fel arall. Tynnodd y system sylw at feysydd lle yr oedd angen gwaith er mwyn gwella effeithiolrwydd yn y ffordd y mae'r heddlu'n cyflenwi ei fusnes.

Diolchwyd i SG am ei mewnbwn ac ni chododd aelodau gwestiynau ar gofrestr risg yr Heddlu.

Diweddarodd HMH yr aelodau ar waith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn ar gofrestr risg SCHTh a oedd yn dilyn yr un ymagwedd a amlinellwyd gan SG ar gyfer yr Heddlu. Byddai mwy o fanylion yn cael eu cyflwyno maes o law yn dilyn trafodaethau â'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.

Canmolodd y PG SG ar ymagwedd ymarferol iawn a newid sylweddol mewn perthynas â rheoli risg.

Cadarnhaodd MM fod y system yn welliant arbennig o fewn y sefydliad.

**Penderfyniad: Y Pwyllgor i nodi cofrestri risg yr Heddlu a SCHTh.**

## A48 Derbyn cofnodion y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol ar 24 Chwefror 2015

Tynnodd y CC sylw Aelodau at gynnwys y Cofnodion.

**Penderfyniad: Y pwyllgor i nodi cofnodion y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2015**

## A49 Unrhyw Fusnes Arall

Gofynnodd y Cadeirydd am wybodaeth ynghylch caffael mewn seminar ar ddechrau neu ddiwedd cyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio ym mis Mehefin.

Gofynnodd CM i'r Aelodau ystyried unrhyw eitemau buddiol ar gyfer y seminar.

Hefyd, hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau am ddiwrnod hyfforddi fis Hydref. Bydd y dyddiad yn cael ei gadarnhau maes o law.

Trefnwyd cyfarfod preifat o'r Aelodau ac Archwilwyr Mewnol ac Allanol ar ôl i'r cyfarfod hwn ddod i ben.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 23 Mehefin 2015.**
**Daeth y cyfarfod i ben am 11.55y.b.**